Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

# Ysgol Gynradd Llanedi
# Heol Ebeneser
# Llanedi
# Pontarddulais
# Abertawe
# SA4 0FB

## Dyddiad yr arolygiad: Mai 2017

## gan

## Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru

Yn ystod pob arolygiad, nod arolygwyr yw ateb tri chwestiwn allweddol:

**Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau?**

**Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?**

**Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?**

Mae arolygwyr hefyd yn rhoi barn gyffredinol ar berfformiad presennol yr ysgol a'i rhagolygon gwella.

Yn yr arfarniadau hyn, mae'r arolygwyr yn defnyddio graddfa bedwar pwynt:

| **Barn** | **Yr hyn mae'r farn yn ei olygu** |
|---|---|
| **Rhagorol** | Llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o arfer sy'n arwain y sector |
| **Da** | Llawer o gryfderau a dim meysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol |
| **Digonol** | Mae cryfderau'n gorbwyso'r meysydd i'w gwella |
| **Anfoddhaol** | Mae'r meysydd pwysig i'w gwella yn gorbwyso'r cryfderau |

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 28 Deddf Addysg 2005.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.llyw.cymru

**Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Trosol (Saesneg i Gymraeg).**

**© Hawlfraint y Goron 2017: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.**

**Dyddiad cyhoeddi: 19/07/2017**

## Cyd-destun

Mae Ysgol Llanedi ym mhentref Llanedi yn Sir Gaerfyrddin.  Mae'n gwasanaethu'r pentref a'r ardaloedd gwledig cyfagos.

Mae 25 o ddisgyblion ar y gofrestr, gan gynnwys chwe disgybl meithrin amser llawn. Mae dau ddosbarth oedrannau cymysg yn yr ysgol.  Mae tua 20% o ddisgyblion yn gymwys i dderbyn prydau ysgol am ddim, sydd fymryn uwchlaw'r cyfartaledd cenedlaethol, sef 19%.  Dywed yr ysgol fod anghenion dysgu ychwanegol gan 32% o ddisgyblion, ac mae hyn uwchlaw'r cyfartaledd cenedlaethol.  Ychydig iawn o ddisgyblion sydd â datganiad o anghenion addysgol arbennig.

Mae bron pob disgybl o dras gwyn Prydeinig.  Saesneg yw iaith yr ysgol o ddydd i ddydd ac addysgir Cymraeg fel ail iaith i'r rhan fwyaf o ddisgyblion.  Mae tua 12% o ddisgyblion yn siarad Cymraeg gartref, a dywed yr ysgol bod rhyw 12% yn dysgu Cymraeg fel iaith gyntaf.  Nid oes unrhyw ddisgyblion yn dysgu Saesneg fel iaith ychwanegol.

Penodwyd y pennaeth dros dro i'w swydd ym Medi 2015, ac yn Ionawr 2011 y cafodd yr ysgol ei harolygu ddiwethaf.

Y gyllideb ysgol unigol fesul disgybl ar gyfer Ysgol Llanedi yn 2016-2017 yw £7,248. Yr uchafswm fesul disgybl yn yr ysgolion cynradd yn Sir Gaerfyrddin yw £9,689 a'r lleiafswm yw £3,083.  Mae Ysgol Llanedi yn y pedwerydd safle o'r 100 ysgol gynradd yn Sir Gaerfyrddin o safbwynt y gyllideb ysgol fesul disgybl.

## Crynodeb

| | |
|---|---|
| **Perfformiad presennol yr ysgol** | **Da** |
| **Rhagolygon gwella'r ysgol** | **Da** |

### Perfformiad presennol

Mae perfformiad presennol yr ysgol yn dda oherwydd bod:

- Rhan fwyaf y disgyblion yn gwneud cynnydd da wrth iddynt symud drwy'r ysgol a'u bod yn cyflawni'n dda erbyn diwedd cyfnod allweddol 2
- Disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol a'r rhai sy'n gymwys i dderbyn prydau ysgol am ddim yn gwneud cynnydd da
- Safonau siarad a gwrando yn dda ar draws yr ysgol
- Rhan fwyaf y disgyblion yn gwneud cynnydd da wrth ddatblygu eu medrau darllen ac ysgrifennu
- Cyfleoedd effeithiol i ddatblygu medrau disgyblion sy'n dysgu Cymraeg fel iaith gyntaf neu ail iaith
- Ymddygiad disgyblion mewn dosbarthiadau ac o amgylch yr ysgol yn dda iawn
- Athrawon yn paratoi gwersi yn drwyadl a bod ganddynt wybodaeth bynciol ddiweddar ac effeithiol

### Rhagolygon gwella

Mae rhagolygon gwella'r ysgol yn dda oherwydd bod:

- Y pennaeth dros dro yn darparu arweinyddiaeth strategol effeithiol a bod ganddi weledigaeth glir ar gyfer yr ysgol
- Y pennaeth dros dro yn cyfleu disgwyliadau uchel ac yn cefnogi staff ar bob lefel i roi o'u gorau ac i gyrraedd eu potensial llawn
- Rôl strategol gan y llywodraethwyr wrth baratoi'r adroddiad hunanarfarnu a chynlluniau datblygu'r ysgol
- Y pennaeth dros dro wedi sefydlu arferion a gweithdrefnau cadarn i hyrwyddo diwylliant myfyriol o hunanarfarnu yn yr ysgol
- Canfyddiadau'r broses hunanarfarnu yn llywio blaenoriaethau yn effeithiol yng nghynllun datblygu'r ysgol
- Ystod eang o bartneriaethau gan yr ysgol sy'n cael effaith fuddiol ar ddysgu a lles disgyblion
- Trefniadau ar gyfer gwario'r Grant Amddifadedd Disgyblion yn canolbwyntio'n effeithiol ar gyfoethogi dysgu disgyblion sy'n agored i niwed

## Argymhellion

A1 Darparu mwy o gyfleoedd i ddisgyblion gymhwyso eu medrau rhifedd a thechnoleg gwybodaeth a chyfathrebu ar draws y cwricwlwm

A2 Sicrhau bod yr addysgu yn hyrwyddo dysgu annibynnol disgyblion fel eu bod yn cyrraedd eu potensial llawn

A3 Sicrhau cysondeb yn adborth yr athrawon er mwyn galluogi disgyblion i nodi'r camau nesaf yn eu dysgu

A4 Mynd i'r afael â'r materion iechyd a diogelwch a godwyd yn ystod yr arolygiad

**Beth sy'n digwydd nesaf?**

Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu sy'n dangos sut y bydd yn mynd i'r afael â'r argymhellion.

## Prif ganfyddiadau

| Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau? | Da |
|---|---|

**Safonau: Da**

Wrth iddynt gychwyn yn yr ysgol, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn gweithio ar y lefel a ddisgwylir ar gyfer eu hoedran. O'u mannau cychwyn, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn gwneud cynnydd da wrth iddynt symud drwy'r ysgol ac maent yn cyflawni'n dda erbyn diwedd cyfnod allweddol 2. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol, a'r rhai sy'n gymwys i dderbyn prydau ysgol am ddim, yn gwneud cynnydd da. Fodd bynnag, nid yw disgyblion mwy abl yn cyrraedd eu potensial llawn bob amser.

Mae safonau siarad a gwrando yn dda ar draws yr ysgol. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion iau yn siarad yn glir a hyderus ag oedolion, ymwelwyr ac â'i gilydd. Mae disgyblion hŷn yn siarad yn huawdl ac yn mynegi'u barn yn effeithiol. Maent yn gwrando'n astud mewn dosbarthiadau ac yn cyfrannu'n dda at drafodaethau grŵp a thrafodaethau dosbarth.

Gwneir cynnydd da gan y rhan fwyaf o ddisgyblion wrth ddatblygu eu medrau darllen. Yn y Cyfnod Sylfaen, mae disgyblion yn deall y berthynas rhwng llythrennau a seiniau. Maent yn darllen yn hyderus ac yn dechrau defnyddio ystod addas o strategaethau i fynd i'r afael â geiriau anghyfarwydd. Erbyn diwedd cyfnod allweddol 2, mae rhan fwyaf y disgyblion yn ddarllenwyr brwd. Maent yn awyddus i siarad am eu hoff awduron a'r llyfrau y maent yn mwynhau eu darllen. Mae'r rhan fwyaf ohonynt yn darllen yn glir a chywir, ac maent yn dethol gwybodaeth berthnasol, er enghraifft pan fyddant yn ymchwilio i destun datgoedwigo. Mae'r rhai sy'n dysgu Cymraeg fel iaith gyntaf yn darllen yn rhugl ac yn hyderus yn y ddau gyfnod allweddol.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn gwneud cynnydd da yn eu medrau ysgrifennu. Yn y Cyfnod Sylfaen, mae disgyblion iau yn datblygu medrau gwneud marciau yn dda. Ym Mlwyddyn 1, maent yn gwneud cynnydd cyson wrth ddatblygu ansawdd eu hysgrifennu. Maent yn ysgrifennu storïau syml ac yn defnyddio ystod gynyddol o eiriau disgrifiadol. Yng nghyfnod allweddol 2, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn cynhyrchu gwaith destlus sy'n ddiddorol, er enghraifft, pan fyddant yn ysgrifennu am eu pentref eu hunain. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn defnyddio ystod eang o atalnodi ac yn sillafu'n gywir. Ar brydiau, fodd bynnag, mae'r defnydd helaeth a wneir o daflenni gwaith yn cyfyngu medrau annibynnol disgyblion a'u gallu i gyrraedd eu potensial llawn. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblon yn gwneud defnydd da o'u medrau darllen ac ysgrifennu mewn meysydd eraill o'r cwricwlwm, er enghraifft pan fyddant yn ymchwilio ac yn ysgrifennu am drychineb Aberfan. Mae rhan fwyaf y disgyblion sy'n dysgu Cymraeg fel iaith gyntaf yn datblygu'u medrau ysgrifennu yn llwyddiannus yn y ddau gyfnod allweddol.

Ar draws yr ysgol, mae llawer o ddisgyblion yn dangos brwdfrydedd i ddysgu Cymraeg fel ail iaith. Gwnânt gynnydd da ac maent yn hyderus yn eu medrau llafar. Mae llawer ohonynt yn gofyn cwestiynau syml ac yn ymateb yn dda i gwestiynau

syml. Maent yn datblygu eu medrau darllen yn dda ac yn dangos dealltwriaeth gadarn o'r testunau. Hefyd, mae llawer o ddisgyblion yn gwneud cynnydd da yn eu hysgrifennu ac yn dangos dealltwriaeth gadarn o strwythurau brawddeg.

Yn y Cyfnod Sylfaen, mae bron yr holl ddisgyblion yn datblygu eu medrau rhif yn llwyddiannus. Maent yn datrys problemau arian syml yn gywir ac yn trefnu rhifau yn gywir hyd at 100. Maent yn cymhwyso'u medrau yn briodol, er enghraifft pan fyddant yn defnyddio adio a thynnu syml yn eu gwaith ar drychfilod. Yng nghyfnod allweddol 2, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn dangos dealltwriaeth dda o ystod o gysyniadau mathemategol ac yn defnyddio geirfa fathemategol yn gywir wrth drafod eu gwaith. Mae llawer o ddisgyblion yn defnyddio ystod o fedrau trin data yn dda, er enghraifft, i gyflwyno canfyddiadau eu hymchwiliad i reidiau cae ffair. Mae gan y rhan fwyaf o ddisgyblion ddealltwriaeth dda o werth lle ac maent yn datblygu ystod o dechnegau pen i ddatrys problemau yn effeithiol. Fodd bynnag, nid yw disgyblion yn y ddau gyfnod allweddol yn cymhwyso'u medrau rhifedd yn ddigon da ar draws y cwricwlwm bob amser.

Mae rhan fwyaf y disgyblion yn datblygu eu medrau technoleg gwybodaeth a chyfathrebu (TGCh) yn dda. Yn y Cyfnod Sylfaen, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn defnyddio rhaglenni prosesu geiriau a phecynnau trin data syml yn fedrus, er enghraifft pan fyddant yn cynnal arolwg o hoff fathau pizza disgyblion. Yng nghyfnod allweddol 2, mae rhan fwyaf y disgyblion yn defnyddio'r rhyngrwyd yn effeithiol i ymchwilio i wybodaeth fel rhan o'u gwaith testun ar dai lleol a choedwigoedd glaw. Nid yw disgyblion yn cymhwyso'u medrau TGCh yn ddigon da mewn pynciau eraill bob amser. Mae dealltwriaeth sicr gan y rhan fwyaf o ddisgyblion am e-ddiogelwch.

Dros y blynyddoedd diwethaf, nifer gymharol fach o ddisgyblion sydd wedi bod yn y grwpiau blwyddyn ar ddiwedd y Cyfnod Sylfaen a chyfnod allweddol 2. Gall hyn gael effaith sylweddol ar berfformiad meincnodi'r ysgol o gymharu â pherfformiad ysgolion tebyg ac o gymharu â chyfartaleddau cenedlaethol.

Ar ddiwedd y Cyfnod Sylfaen dros y pedair blynedd diwethaf, mae perfformiad disgyblion o ran y deilliannau disgwyliedig a'r deilliannau uwch mewn llythrennedd wedi gosod yr ysgol yn y 25% gwaelod yn gyffredinol o gymharu â pherfformiad mewn ysgolion tebyg. Mewn datblygiad mathemategol, mae perfformiad disgyblion o ran y deilliant disgwyliedig wedi amrywio, gan symud yr ysgol rhwng y 25% uchaf a'r 25% gwaelod, ond o ran y deilliant uwch mae perfformiad disgyblion wedi gosod yr ysgol yn y 25% uchaf o ysgolion tebyg yn gyffredinol.

Ar ddiwedd cyfnod allweddol 2, dros yr un cyfnod, mae perfformiad disgyblion ar y lefel ddisgwyliedig a'r lefel uwch mewn Saesneg a mathemateg wedi amrywio o gymharu ag ysgolion tebyg, er ei fod fel arfer wedi gosod yr ysgol yn y 25% uchaf neu'r 25% gwaelod o ysgolion tebyg. Mewn gwyddoniaeth, mae perfformiad disgyblion wedi gosod yr ysgol yn y 25% uchaf o ran y ddau ddeilliant fel arfer.

**Lles: Da**

Mae agwedd gadarnhaol at fyw a bwyta'n iach gan bron pob un o'r disgyblion, ac maent yn deall pwysigrwydd gwneud ymarfer corff yn rheolaidd.

Mae rhan fwyaf y disgyblion yn mwynhau eu dysgu, yn ymgymryd yn dda â gweithgareddau'r ystafell ddosbarth ac yn dangos awydd i wella eu gwaith. Mae llawer o ddisgyblion hŷn yn cyfrannu'n effeithiol at gynllunio'u testunau gwersi. Mewn dosbarthiadau ac o amgylch yr ysgol, mae ymddygiad disgyblion yn dda iawn. Mae bron yr holl ddisgyblion yn gwrtais iawn ac yn dangos parch, gofal a chonsyrn am eraill. Mae bron pob un o'r disgyblion yn chwarae gyda'i gilydd yn hapus amser egwyl.

Gwneir cynnydd da gan bron yr holl ddisgyblion wrth ddatblygu eu medrau cymdeithasol. Maent yn cydweithio'n effeithiol â'i gilydd mewn grwpiau ac yn gweithio'n dda mewn parau. Mae ymlyniad cryf i'r ysgol gan yr holl ddisgyblion, ac maent yn ysgwyddo cyfrifoldebau amrywiol yn frwdfrydig. Mae'r cyngor ysgol a'r eco-bwyllgor yn cyflawni eu gwaith yn gydwybodol, ac mae gan aelodau rôl ddylanwadol yn yr ysgol. Er enghraifft, mae'r cyngor ysgol wedi cyfrannu at welliannau yn yr amgylchedd dysgu awyr agored.

Mae disgyblion yn cymryd rhan weithgar mewn ystod o weithgareddau cymunedol, fel gwasanaeth blynyddol Sul y Cofio a gynhelir yn yr eglwys leol. Mae hyn yn atgyfnerthu dealltwriaeth disgyblion o egwyddorion ysbrydol a moesol.

Mae cyfartaledd presenoldeb yr ysgol am y pedair blynedd diwethaf wedi amrywio, gan symud yr ysgol rhwng y 25% uchaf a'r 50% isaf o'i chymharu ag ysgolion tebyg. Dros y flwyddyn ddiwethaf, mae'r gyfradd presenoldeb wedi gosod yr ysgol yn y 50% uwch. Mae rhan fwyaf y disgyblion yn cyrraedd yr ysgol yn brydlon.

| **Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?** | **Da** |
|---|---|

**Profiadau dysgu: Da**

Mae'r ysgol yn darparu cwricwlwm eang a chytbwys sy'n ysgogi ac yn ennyn diddordeb disgyblion yn effeithiol. Trefnir gweithgareddau gan athrawon sy'n bodloni gofynion y Cwricwlwm Cenedlaethol, y Cyfnod Sylfaen ac addysgu addysg grefyddol yn llawn. Mae'r ysgol yn cynnig ystod o weithgareddau ac ymweliadau allgyrsiol sy'n datblygu medrau disgyblion yn dda ac yn cefnogi'r cwricwlwm yn effeithiol. Er enghraifft, mae ymweliadau â Chastell Henllys yn gwella dealltwriaeth disgyblion o'r Celtiaid, tra bod ymweliadau â gorsaf dân Treforys yn cefnogi gwaith disgyblion iau ar y thema 'pobl sy'n eu helpu'.

Mae'r ysgol wedi addasu ei chynlluniau gwaith yn effeithiol i ymgorffori gofynion y Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd. Mae athrawon yn darparu cyfleoedd pwrpasol i ddisgyblion ddatblygu eu medrau llythrennedd mewn pynciau amrywiol ar draws y cwricwlwm. Ond mae cyfleoedd i ddisgyblion ymestyn eu medrau rhifedd a TGCh ar draws y cwricwlwm yn fwy cyfyngedig. Mae'r ysgol yn darparu ystod effeithiol iawn o raglenni ymyrraeth a chymorth i ddiwallu anghenion disgyblion unigol.

Caiff y Gymraeg ei hyrwyddo'n dda a cheir cyfleoedd effeithiol i ddatblygu medrau disgyblion sy'n dysgu Cymraeg fel iaith gyntaf neu ail iaith. Mae staff yn creu ethos Cymreig cadarnhaol ac yn hybu'r iaith yn gyson. Mae athrawon yn datblygu gwybodaeth disgyblion a'u gwerthfawrogiad o ddiwylliant a threftadaeth Cymru yn llwyddiannus. Er enghraifft, mae disgyblion yn astudio agweddau amrywiol ar hanes lleol, fel 'Merched Beca', a digwyddiadau nodedig fel trychineb Aberfan.

Mae'r eco-bwyllgor yn gynhyrchiol iawn yn cynyddu ymwybyddiaeth disgyblion o faterion cynaliadwyedd, fel ailgylchu, arbed ynni a gofalu am yr amgylchedd. Mae'r ysgol yn mynd ati'n weithgar i annog prosiectau masnach deg drwy ei chysylltiadau ag ysgol leol arall. Yn ogystal, mae disgyblion yn noddi addysg disgybl yn Ynysoedd Philippinau. O ganlyniad, mae disgyblion yn datblygu dealltwriaeth dda o fywyd yn y byd ehangach.

**Addysgu: Da**

Mae athrawon yn paratoi gwersi yn drylwyr ac mae ganddynt wybodaeth bynciol ddiweddar ac effeithiol. Maent yn adnabod disgyblion yn dda iawn ac yn sefydlu perthnasoedd gweithio cadarn â nhw. Maent yn rheoli ymddygiad disgyblion yn llwyddiannus ac yn cynnal gwersi â rhediad sionc. Mae staff yn hyrwyddo Cymraeg cywir yn rheolaidd ac mae hyn yn cyfrannu at ethos Cymreig cadarnhaol yr ysgol. Defnyddir ystod o dechnegau holi pwrpasol ac amrywiaeth o strategaethau addysgu a dysgu yn dda gan athrawon i ennyn diddordeb disgyblion. Mae cynorthwywyr addysgu yn gwneud cyfraniad cadarnhaol at ddysgu'r disgyblion.

Ar rai adegau, lle mae'r addysgu yn llai effeithiol, mae gormod o gyfarwyddyd gan athrawon yn cyfyngu gallu disgyblion i fod yn ddysgwyr annibynnol. O ganlyniad, nid oes digon o her yn cael ei chynnig i ddisgyblion mwy abl.

Mae'r ysgol yn defnyddio ystod eang o asesiadau i olrhain cynnydd disgyblion yn drylwyr. Mae athrawon yn cofnodi'r wybodaeth hon yn ofalus ac yn ei defnyddio'n dda i gynllunio ar gyfer unigolion a grwpiau o ddisgyblion. Defnyddir strategaethau asesu ar gyfer dysgu addas gan staff. Mae disgwyliadau clir gan athrawon o'r hyn yw darn o waith da. Maent yn marcio gwaith disgyblion yn rheolaidd ac yn canmol ymdrechion disgyblion. Fodd bynnag, nid yw'r adborth i ddisgyblion bob amser yn canolbwyntio'n glir ar y meysydd i'w gwella yng ngwaith y disgyblion.

Mae adroddiadau blynyddol yn bodloni'r gofynion ac yn rhoi gwybodaeth werthfawr i rieni am gynnydd eu plant a'u hamcanion dysgu i'r dyfodol.

**Gofal, cymorth ac arweiniad: Da**

Mae'r ysgol yn darparu lefelau uchel o ofal, cymorth ac arweiniad i ddisgyblion. Mae pob un o'r disgyblion yn teimlo'n ddiogel ac yn sicr mewn amgylchedd cefnogol. Gwneir trefniadau priodol gan yr ysgol ar gyfer hybu bwyta ac yfed yn iach.

Mae'r ddarpariaeth ar gyfer datblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol disgyblion yn effeithiol. Mae'r pwyslais ar werthoedd cadarnhaol a chonsyrn am eraill yn nodwedd gref o'r ysgol. Mae'r gwerthoedd hyn i'w gweld yn amlwg mewn gweithredoedd o gyd-addoli ac yng nghwricwlwm addysg bersonol a chymdeithasol yr ysgol.

Mae trefniadau'r ysgol ar gyfer diogelu disgyblion yn bodloni gofynion ac nid ydynt yn destun pryder.

Gwneir defnydd effeithiol o ystod o asiantaethau allanol a gwasanaethau cymorth gan yr ysgol. Er enghraifft, mae swyddog cyswllt yr heddlu lleol yn mynychu'r ysgol

yn rheolaidd i hyrwyddo e-ddiogelwch ac ymwybyddiaeth o gyffuriau. Mae arbenigwyr yr awdurdod lleol yn rhoi cyngor a help defnyddiol i ddisgyblion y mae angen cymorth ychwanegol arnynt gyda'u dysgu.

Ceir darpariaeth gadarn ar gyfer disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol. Mae trefniadau olrhain cynhwysfawr ar waith. Caiff anghenion disgyblion eu nodi yn gynnar gan yr ysgol ac mae'n darparu ystod eang o raglenni ymyrraeth buddiol sy'n canolbwyntio'n dda ar fedrau llythrennedd a rhifedd, yn ogystal â lles a medrau corfforol. Mae athrawon yn cytuno targedau manwl ar gyfer datblygiad mewn cynlluniau addysg unigol gyda disgyblion a rhieni er mwyn galluogi disgyblion i gyflawni'u nodau.

**Yr amgylchedd dysgu: Da**

Mae'r ysgol yn darparu amgylchedd cynnes a chroesawgar iawn lle mae pawb yn cael ei werthfawrogi. Mae staff yn hyrwyddo cyfle cyfartal yn dda ac yn gwrthwynebu unrhyw fath o fwlio neu wahaniaethu. O ganlyniad, mae bron pob disgybl yn parchu credoau pobl eraill ac maent yn awyddus i helpu'r rhai sy'n llai ffodus na nhw eu hunain. Mae ethos anogol cryf yn annog yr holl ddisgyblion i lwyddo.

Mae adeiladau'r ysgol yn diwallu anghenion disgyblion yn dda. Caiff y safle a'r adeiladau eu cynnal a'u cadw'n dda. Fodd bynnag, codwyd ychydig iawn o bryderon iechyd a diogelwch gan y tîm yn ystod yr arolygiad. Mae ystafelloedd dosbarth yn fawr ac yn darparu amgylchedd dysgu addas ar gyfer nifer y disgyblion ar y gofrestr. Mae arddangosiadau deniadol yn rhoi ymdeimlad o falchder i ddisgyblion yn eu gwaith a'u cyflawniadau.

Mae'r safle yn cynnwys iard chwarae fawr, cae ac adnoddau digonol i annog disgyblion i gadw'n heini ac yn iach adeg egwyl. Mae'r ysgol wedi datblygu ei mannau agored, fel yr ardd lysiau a'r ardd flodau, 'gwesty chwilod' a hafdy mawr, er mwyn gwella dysgu a hamdden disgyblion yn llwyddiannus.

| Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth? | Da |
|---|---|

**Arweinyddiaeth: Da**

Mae'r pennaeth dros dro yn darparu arweinyddiaeth strategol effeithiol ac mae ganddi weledigaeth glir ar gyfer yr ysgol. Mae'n rhannu'r weledigaeth hon yn llwyddiannus gyda staff, disgyblion, llywodraethwyr a rhieni. Mae'r pennaeth dros dro yn cyfleu disgwyliadau uchel ac mae'n cefnogi staff ar bobl lefel i roi o'u gorau ac i gyflawni eu potensial llawn. Ers iddi gael ei phenodi, mae wedi gweithredu mesurau pendant i gryfhau ansawdd yr addysgu a'r dysgu. Er enghraifft, mae rhaglen hyfforddi drylwyr yn cefnogi datblygiad proffesiynol staff ac yn sicrhau atebolrwydd am ansawdd darpariaeth yr ysgol.

Mae gan staff swydd ddisgrifiadau manwl sy'n cysylltu'n agos iawn â'u cyfrifoldebau unigol. Mae'r holl aelodau staff yn ymgymryd â'u cyfrifoldebau yn ddyfal ac yn gweithio'n llwyddiannus â'i gilydd i greu ethos cynnes a chefnogol ar draws yr ysgol gyfan. Maent yn rhannu dealltwriaeth gyffredin am flaenoriaethau'r ysgol ar gyfer gwella, ac mae cyfarfodydd staff yn canolbwyntio'n effeithiol ar wella safonau a darpariaeth.

Mae'r ysgol yn mynd i'r afael â blaenoriaethau cenedlaethol a lleol yn dda. Er enghraifft, mae staff wedi gweithredu strategaethau effeithiol i leihau effaith amddifadedd ar gyrhaeddiad disgyblion.

Mae'r llywodraethwyr yn gydwybodol ac yn gefnogol iawn o'r ysgol. Mae ganddynt ddealltwriaeth dda o sut mae'r ysgol yn perfformio ac maent yn dadansoddi ystod o ddata perfformiad yn ofalus er mwyn herio arweinwyr yn effeithiol ynglŷn â safonau. Mae'r llywodraethwyr yn cymryd rôl strategol wrth baratoi'r adroddiad hunanarfarnu a chynllun datblygu'r ysgol. Maent yn ymweld yn rheolaidd â'r ysgol, yn cynnal teithiau dysgu â ffocws ac yn cymryd rhan weithgar mewn gweithgareddau monitro. Mae'r corff llywodraethol yn cyflawni ei gyfrifoldebau statudol yn gydwybodol.

**Gwella ansawdd: Da**

Mae'r pennaeth dros dro wedi sefydlu arferion a gweithdrefnau cadarn i hyrwyddo diwylliant myfyriol o hunanarfarnu yn yr ysgol. Mae'r gweithdrefnau effeithiol yn cynnwys dadansoddi data yn drylwyr, monitro llyfrau disgyblion, defnyddio teithiau dysgu yn bwrpasol ac arsylwadau o wersi. Hefyd, mae'r trefniadau hunanarfarnu yn ystyried barnau disgyblion, llywodraethwyr a rhieni. Yn ogystal, mae'r ysgol wedi ymateb yn gadarnhaol i gyngor ymgynghorwyr allanol, er enghraifft wrth wella effeithiolrwydd hunanarfarnu a chynllunio gwelliant. Mae'r ystod gynhwysfawr hon o wybodaeth yn rhoi darlun clir iawn i staff o gryfderau'r ysgol a meysydd i'w gwella.

Mae staff yn defnyddio canfyddiadau'r broses hunanarfarnu i lywio blaenoriaethau yng nghynllun datblygu'r ysgol yn effeithiol. Mae'r cynllun yn darparu fframwaith gweithredu clir i fynd i'r afael â nifer hylaw o flaenoriaethau priodol sy'n canolbwyntio'n dda ar ddeilliannau disgyblion. Mae'r cynllun yn gosod targedau heriol ar gyfer gwella ac mae'n cynnwys cyfrifoldebau priodol a ddosberthir yn dda ymhlith y staff. Mae staff a llywodraethwyr yn mynd ati'n rheolaidd i arfarnu'r cynnydd y maent yn ei wneud wrth fynd i'r afael â blaenoriaethau. Ceir hanes da yn yr ysgol o gymryd camau priodol sy'n arwain at welliannau. Er enghraifft, mae datblygiadau mewn addysgu Cymraeg a Saesneg wedi cael effaith gadarnhaol ar safonau disgyblion ar draws y cwricwlwm.

**Gweithio mewn partneriaeth: Da**

Mae ystod eang o bartneriaethau gan yr ysgol sy'n cael effaith fuddiol ar les disgyblion ac yn cyfoethogi eu cyfleoedd dysgu yn sylweddol.

Mae'r bartneriaeth â rhieni yn dda ac mae bron pob un ohonynt yn gwerthfawrogi polisi drws agored yr ysgol. O ganlyniad, mae bron yr holl rieni yn teimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi ac yn ystyried bod ganddynt lais yn natblygiad yr ysgol. Gwneir cyfraniadau pwysig gan 'Ffrindiau'r Ysgol', er enghraifft trwy godi arian i brynu adnoddau, i wella'r amgylchedd ysgol ac i ddarparu ymweliadau addysgol â'r ardal leol.

Mae perthynas agos iawn gan yr ysgol â'r gymuned leol. Er enghraifft, ceir cysylltiadau cryf gyda'r eglwys blwyf leol ac mae'r ficer yn ymweld â'r ysgol yn rheolaidd. Hefyd, mae disgyblion yn cymryd rhan yng ngweithgareddau amrywiol yr eglwys, gan gynnwys y gwasanaeth Carolau Nadolig blynyddol, sy'n cyfoethogi profiadau dysgu disgyblion.

Ceir cysylltiadau cryf iawn gydag ysgolion eraill yn y clwstwr a thu hwnt, sy'n cael effaith gadarnhaol ar addysgu a dysgu, er enghraifft wrth ddatblygu darpariaeth yr ysgol ar gyfer y Cyfnod Sylfaen. Ceir cysylltiadau pontio da gyda'r ysgolion uwchradd derbyn hefyd. Mae'r ysgol yn sicrhau cywirdeb asesiadau athrawon yn effeithiol drwy gymryd rhan mewn prosesau cymedroli a safoni yn yr ysgol a gyda'i chlwstwr o ysgolion cynradd.

**Rheoli adnoddau: Da**

Mae nifer addas o athrawon cymwys a phrofiadol yn yr ysgol i gyflwyno'r cwricwlwm. Mae hefyd yn defnyddio cynorthwywyr addysgu yn briodol. Gwneir cyfraniad gwerthfawr gan bob un o'r staff at ddysgu a lles disgyblion.

Mae pob un o'r staff yn cymryd rhan mewn digwyddiadau hyfforddi rheolaidd yn gysylltiedig â'u targedau unigol a blaenoriaethau'r ysgol. Er enghraifft, maent wedi ymgymryd â hyfforddiant pwrpasol i wella ansawdd ysgrifennu ar draws yr ysgol. Caiff yr hyfforddiant hwn effaith gadarnhaol ar arfer yn yr ystafell ddosbarth. Ceir trefniadau effeithiol ar gyfer amser cynllunio, paratoi ac asesu athrawon. Mae prosesau rheoli perfformiad yr ysgol yn cyfrannu at welliannau yn nysgu disgyblion, er enghraifft mewn addysgu Cymraeg.

Mae'r ysgol yn datblygu fel cymuned ddysgu effeithiol. Mae'r rhwydweithiau dysgu gydag ysgolion amrywiol yn y clwstwr yn cael effaith gadarnhaol ar fedrau iaith disgyblion a'u lles.

Mae'r ysgol yn rheoli ei hadeiladau a'i hadnoddau yn dda. Caiff y gyllideb ei monitro'n ofalus gan y pennaeth dros dro a'r corff llywodraethol, ac maent yn sicrhau bod penderfyniadau gwario yn adlewyrchu blaenoriaethau'r ysgol. Mae'r trefniadau presennol ar gyfer defnyddio'r Grant Amddifadedd Disgyblion yn canolbwyntio'n effeithiol ar gyfoethogi dysgu disgyblion sy'n agored i niwed a mynd i'r afael â thangyflawniad mewn llythrennedd a rhifedd trwy ddefnyddio staff ac adnoddau yn strategol. O ganlyniad, mae bron pob un o'r disgyblion targedig yn gwneud cynnydd da.

O ystyried safonau cyflawniad a lles disgyblion ac ansawdd y ddarpariaeth, mae'r ysgol yn darparu gwerth da am arian.

## Atodiad 1: Sylwadau ar ddata perfformiad

Mae llawer o garfanau bach iawn mewn llawer o'r blynyddoedd o ddata perfformiad y Cyfnod Sylfaen a Chyfnod Allweddol 2 ar gyfer yr ysgol hon. Mewn achos felly, nid ydym yn cynnwys tabl data perfformiad.

Mae rhagor o wybodaeth ar gael o wefan Llywodraeth Cymru, Fy Ysgol Leol, yn y ddolen isod.
http://mylocalschool.wales.gov.uk/index.html?iaith=cym

# Atodiad 2

## Adroddiad boddhad rhanddeiliaid

## Ymatebion i’r holiadur i ddysgwyr

Yn dynodi’r meincnod – mae hwn yn gyfanswm o’r holl ymatebion hyd hyn ers mis Medi 2010.

| | Number of responses<br>Nifer o ymatebion | Agree<br>Cytuno | Disagree<br>Anghytuno | |
|---|---|---|---|---|
| I feel safe in my school. | 13 | 13<br>100% | 0<br>0% | Rwy'n teimlo'n ddiogel yn fy ysgol. |
| | | 98% | 2% | |
| The school deals well with any bullying. | 13 | 13<br>100% | 0<br>0% | Mae'r ysgol yn delio'n dda ag unrhyw fwlio. |
| | | 92% | 8% | |
| I know who to talk to if I am worried or upset. | 13 | 13<br>100% | 0<br>0% | Rwy'n gwybod pwy i siarad ag ef/â hi os ydw I'n poeni neu'n gofidio. |
| | | 97% | 3% | |
| The school teaches me how to keep healthy | 13 | 13<br>100% | 0<br>0% | Mae'r ysgol yn fy nysgu i sut i aros yn iach. |
| | | 97% | 3% | |
| There are lots of chances at school for me to get regular exercise. | 13 | 13<br>100% | 0<br>0% | Mae llawer o gyfleoedd yn yr ysgol i mi gael ymarfer corff yn rheolaidd. |
| | | 96% | 4% | |
| I am doing well at school | 13 | 13<br>100% | 0<br>0% | Rwy’n gwneud yn dda yn yr ysgol. |
| | | 96% | 4% | |
| The teachers and other adults in the school help me to learn and make progress. | 13 | 13<br>100% | 0<br>0% | Mae'r athrawon a'r oedolion eraill yn yr ysgol yn fy helpu i ddysgu a gwneud cynnydd. |
| | | 99% | 1% | |
| I know what to do and who to ask if I find my work hard. | 13 | 13<br>100% | 0<br>0% | Rwy'n gwybod beth I'w wneud a gyda phwy i siarad os ydw I'n gweld fy ngwaith yn anodd. |
| | | 98% | 2% | |
| My homework helps me to understand and improve my work in school. | 13 | 13<br>100% | 0<br>0% | Mae fy ngwaith cartref yn helpu i mi ddeall a gwella fy ngwaith yn yr ysgol. |
| | | 90% | 10% | |
| I have enough books, equipment, and computers to do my work. | 13 | 12<br>92% | 1<br>8% | Mae gen i ddigon o lyfrau, offer a chyfrifiaduron i wneud fy ngwaith. |
| | | 95% | 5% | |
| Other children behave well and I can get my work done. | 13 | 13<br>100% | 0<br>0% | Mae plant eraill yn ymddwyn yn dda ac rwy'n gallu gwneud fy ngwaith. |
| | | 77% | 23% | |
| Nearly all children behave well at playtime and lunch time | 12 | 12<br>100% | 0<br>0% | Mae bron pob un o'r plant yn ymddwyn yn dda amser chwarae ac amser cinio. |
| | | 84% | 16% | |

## Ymatebion i'r holiadur i rieni

Yn dynodi'r meincnod – mae hwn yn gyfanswm o'r holl ymatebion hyd hyn ers mis Medi 2010.

| | Number of responses<br>Nifer o ymatebion | Strongly Agree<br>Cytuno'n gryf | Agree<br>Cytuno | Disagree<br>Anghytuno | Strongly disagree<br>Anghytuno'n gryf | Don't know<br>Ddim yn gwybod | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Overall I am satisfied with the school. | 11 | 7 | 3 | 0 | 0 | 1 | Rwy'n fodlon â'r ysgol yn gyffredinol. |
| | | 64% | 27% | 0% | 0% | | |
| | | 62% | 34% | 3% | 1% | | |
| My child likes this school. | 11 | 10 | 1 | 0 | 0 | 0 | Mae fy mhlentyn yn hoffi'r ysgol hon. |
| | | 91% | 9% | 0% | 0% | | |
| | | 72% | 26% | 1% | 0% | | |
| My child was helped to settle in well when he or she started at the school. | 11 | 9 | 2 | 0 | 0 | 0 | Cafodd fy mhlentyn gymorth i ymgartrefu'n dda pan ddechreuodd yn yr ysgol. |
| | | 82% | 18% | 0% | 0% | | |
| | | 72% | 26% | 1% | 0% | | |
| My child is making good progress at school. | 10 | 6 | 3 | 1 | 0 | 0 | Mae fy mhlentyn yn gwneud cynnydd da yn yr ysgol. |
| | | 60% | 30% | 10% | 0% | | |
| | | 61% | 35% | 3% | 1% | | |
| Pupils behave well in school. | 11 | 8 | 3 | 0 | 0 | 0 | Mae disgyblion yn ymddwyn yn dda yn yr ysgol. |
| | | 73% | 27% | 0% | 0% | | |
| | | 47% | 48% | 4% | 1% | | |
| Teaching is good. | 11 | 8 | 1 | 0 | 0 | 2 | Mae'r addysgu yn dda. |
| | | 73% | 9% | 0% | 0% | | |
| | | 61% | 37% | 2% | 0% | | |
| Staff expect my child to work hard and do his or her best. | 11 | 8 | 3 | 0 | 0 | 0 | Mae'r staff yn disgwyl i fy mhlentyn weithio'n galed ac i wneud ei orau. |
| | | 73% | 27% | 0% | 0% | | |
| | | 64% | 34% | 1% | 0% | | |
| The homework that is given builds well on what my child learns in school. | 11 | 5 | 4 | 1 | 0 | 1 | Mae'r gwaith cartref sy'n cael ei roi yn adeiladu'n dda ar yr hyn mae fy mhlentyn yn ei ddysgu yn yr ysgol. |
| | | 45% | 36% | 9% | 0% | | |
| | | 49% | 43% | 7% | 2% | | |
| Staff treat all children fairly and with respect. | 11 | 8 | 2 | 0 | 0 | 1 | Mae'r staff yn trin pob plentyn yn deg a gyda pharch. |
| | | 73% | 18% | 0% | 0% | | |
| | | 60% | 35% | 4% | 1% | | |
| My child is encouraged to be healthy and to take regular exercise. | 11 | 8 | 3 | 0 | 0 | 0 | Caiff fy mhlentyn ei annog i fod yn iach ac i wneud ymarfer corff yn rheolaidd. |
| | | 73% | 27% | 0% | 0% | | |
| | | 59% | 38% | 2% | 0% | | |
| My child is safe at school. | 11 | 8 | 3 | 0 | 0 | 0 | Mae fy mhlentyn yn ddiogel yn yr ysgol. |
| | | 73% | 27% | 0% | 0% | | |
| | | 66% | 32% | 2% | 1% | | |
| My child receives appropriate additional support in relation to any particular individual needs'. | 11 | 7 | 2 | 0 | 0 | 2 | Mae fy mhlentyn yn cael cymorth ychwanegol priodol mewn perthynas ag unrhyw anghenion unigol penodol. |
| | | 64% | 18% | 0% | 0% | | |
| | | 55% | 39% | 5% | 2% | | |

| | Number of responses<br>Nifer o ymatebion | Strongly Agree<br>Cytuno'n gryf | Agree<br>Cytuno | Disagree<br>Anghytuno | Strongly disagree<br>Anghytuno'n gryf | Don't know<br>Ddim yn gwybod | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| I am kept well informed about my child's progress. | 11 | 6<br>55% | 4<br>36% | 1<br>9% | 0<br>0% | 0 | Rwy'n cael gwybodaeth gyson am gynnydd fy mhlentyn. |
| | | 48% | 41% | 9% | 2% | | |
| I feel comfortable about approaching the school with questions, suggestions or a problem. | 11 | 9<br>82% | 2<br>18% | 0<br>0% | 0<br>0% | 0 | Rwy'n teimlo'n esmwyth ynglŷn â gofyn cwestiwn i'r ysgol, gwneud awgrymiadau neu nodi problem. |
| | | 62% | 31% | 5% | 2% | | |
| I understand the school's procedure for dealing with complaints. | 11 | 6<br>55% | 2<br>18% | 1<br>9% | 0<br>0% | 2 | Rwy'n deall trefn yr ysgol ar gyfer delio â chwynion. |
| | | 48% | 42% | 8% | 2% | | |
| The school helps my child to become more mature and take on responsibility. | 11 | 8<br>73% | 2<br>18% | 0<br>0% | 0<br>0% | 1 | Mae'r ysgol yn helpu fy mhlentyn i ddod yn fwy aeddfed ac i ysgwyddo cyfrifoldeb. |
| | | 57% | 40% | 2% | 0% | | |
| My child is well prepared for moving on to the next school or college or work. | 10 | 6<br>60% | 2<br>20% | 0<br>0% | 0<br>0% | 2 | Mae fy mhlentyn wedi'i baratoi'n dda ar gyfer symud ymlaen i'r ysgol nesaf neu goleg neu waith. |
| | | 52% | 41% | 5% | 1% | | |
| There is a good range of activities including trips or visits. | 11 | 8<br>73% | 3<br>27% | 0<br>0% | 0<br>0% | 0 | Mae amrywiaeth dda o weithgareddau, gan gynnwys teithiau neu ymweliadau. |
| | | 53% | 39% | 6% | 1% | | |
| The school is well run. | 10 | 6<br>60% | 2<br>20% | 1<br>10% | 0<br>0% | 1 | Mae'r ysgol yn cael ei rhedeg yn dda. |
| | | 61% | 34% | 4% | 2% | | |

# Atodiad 3

## Y tîm arolygu

| | |
|---|---|
| Dr David Gareth Evans | Arolygydd Cofnodol |
| Mr David Owen Jenkins | Arolygydd Lleyg |
| Mr Gruffydd Dylan Roberts | Arolygydd Cymheiriaid |
| Miss Sian Rees (Pennaeth) | Enwebai |

## Copïau o’r adroddiad

Mae copïau o’r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol ac ar wefan Estyn (www.estyn.llyw.cymru)

**Grwpiau blwyddyn, y Cyfnod Sylfaen a chyfnodau allweddol**

Mae ysgolion yn defnyddio system gyffredin o rifo grwpiau blwyddyn o ddechrau addysg ysgol orfodol i 18 oed. Mae’r system hon yn pwysleisio pwysigrwydd parhad ac yn hwyluso cyfathrebu ymhlith ysgolion, cyrff llywodraethol, rhieni ac awdurdodau lleol.

Mae’r tabl canlynol yn nodi’r amrediad oedrannau sy’n berthnasol i bob grŵp blwyddyn. Er enghraifft, mae Blwyddyn 1 yn cyfeirio at y grŵp o ddisgyblion sy’n cyrraedd 6 oed yn ystod y flwyddyn academaidd, a Blwyddyn 13 yw’r grŵp blwyddyn sy’n cyrraedd 18 oed yn ystod y flwyddyn academaidd.

Cyfnod cynradd:

| Blwyddyn | Meithrin | Derbyn | B1 | B2 | B3 | B4 | B5 | B6 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Oedrannau | 3-4 | 4-5 | 5-6 | 6-7 | 7-8 | 8-9 | 9-10 | 10-11 |

Cyfnod uwchradd:

| Blwyddyn | B7 | B8 | B9 | B10 | B11 | B12 | B13 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Oedrannau | 11-12 | 12-13 | 13-14 | 14-15 | 15-16 | 16-17 | 17-18 |

Mae’r Cyfnod Sylfaen a’r cyfnodau allweddol yn cwmpasu’r grwpiau blwyddyn canlynol:

| | |
|---|---|
| Cyfnod Sylfaen | Meithrin, Dosbarth Derbyn, Blwyddyn 1 a Blwyddyn 2 |
| Cyfnod allweddol 2 | Blwyddyn 3 i Flwyddyn 6 |
| Cyfnod allweddol 3 | Blwyddyn 7 i Flwyddyn 9 |
| Cyfnod allweddol 4 | Blwyddyn 10 a Blwyddyn 11 |

## Rhestr termau – Cynradd

**Dangosydd y Cyfnod Sylfaen (DCS)**

Mae cynnydd mewn dysgu drwy’r Cyfnod Sylfaen yn cael ei ddangos gan ddeilliannau (o ddeilliant 1 i ddeilliant 6)

Mae dangosydd y Cyfnod Sylfaen (DCS) yn ymwneud â’r perfformiad disgwyliedig mewn tri maes dysgu yn y Cyfnod Sylfaen:

- llythrennedd, iaith a chyfathrebu yn Saesneg neu Gymraeg iaith gyntaf
- datblygiad mathemategol
- datblygiad personol a chymdeithasol, lles ac amrywiaeth ddiwylliannol

Erbyn diwedd y Cyfnod Sylfaen, yn saith oed, disgwylir i ddisgyblion gyrraedd deilliant 5 a disgwylir i’r rhai mwy galluog gyrraedd deilliant 6.

Rhaid i ddisgyblion gyrraedd y deilliant disgwyliedig (deilliant 5) yn y tri maes uchod i gyflawni dangosydd y Cyfnod Sylfaen.

**Y dangosydd pwnc craidd (DPC)**

Mae cynnydd mewn dysgu trwy gyfnod allweddol 2 yn cael ei ddangos gan lefelau (lefel 1 i lefel 5).

Mae’r dangosydd pwnc craidd yng nghyfnod allweddol 2 yn ymwneud â’r perfformiad disgwyliedig ym mhynciau craidd y Cwricwlwm Cenedlaethol:

- Saesneg neu Gymraeg iaith gyntaf
- mathemateg
- gwyddoniaeth

Erbyn diwedd cyfnod allweddol 2, yn un ar ddeg oed, disgwylir i ddisgyblion gyrraedd lefel 4 a disgwylir i’r disgyblion mwy galluog gyrraedd lefel 5.

Rhaid i ddisgyblion gyrraedd y lefel ddisgwyliedig o leiaf (lefel 4) yn y tri phwnc craidd er mwyn cyflawni’r dangosydd pwnc craidd.

**Setiau Data Craidd Cymru Gyfan**

Gall adroddiadau arolygu gyfeirio at berfformiad ysgol o gymharu â theulu o ysgolion neu ag ysgolion neu sydd â chyfran weddol debyg o ddisgyblion sydd â hawl i gael prydau ysgol am ddim.

Mewn perthynas â phrydau ysgol am ddim, mae ysgolion yn cael eu gosod yn un o bump o fandiau yn ôl y duedd tair blynedd yng nghyfran y disgyblion sydd â hawl i gael prydau ysgol am ddim yn yr ysgol.  Caiff perfformiad yr ysgol ei roi mewn chwarteli wedyn (o’r 25% uchaf i’r 25% isaf) mewn perthynas â pha mor dda mae’n gwneud o gymharu ag ysgolion eraill yn yr un band prydau ysgol am ddim.

Aeth Llywodraeth Cymru ati i greu'r teuluoedd o ysgolion (grŵp o 11 o ysgolion yn nodweddiadol) i alluogi ysgolion i gymharu'u perfformiad ag ysgolion tebyg ar hyd a lled Cymru. Mae cyfansoddiad y teuluoedd yn defnyddio nifer o ffactorau. Mae'r rhain yn cynnwys cyfran y disgyblion â hawl i gael prydau ysgol am ddim, a'r gyfran sy'n byw yn yr 20% o'r ardaloedd mwyaf difreintiedig yng Nghymru. Maent hefyd yn defnyddio cyfran y disgyblion sydd ag anghenion addysgol arbennig yn cael cymorth drwy'r cynllun gweithredu gan yr ysgol a mwy neu â datganiad o anghenion addysgol arbennig, a disgyblion sy'n dysgu Saesneg fel iaith ychwanegol.